

YR ARLOESWR A'R ARLUNYDD: WILLIAM CURTIS a SYDENHAM EDWARDS


gan RAYMOND B. DAVIES

CROESEWIR y twf ym myd cyhoeddi byd natur Cymraeg, a dymunwn lwyddiant i bob menter sy'n ceisio hyrwyddo ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas yn ein hiaith ein hunain. Wrth gwrs mae'n hen draddodiad erbyn hyn yn y Saesneg ac mae llwyddiant ac oes hir rhai cylchgronau yn yr iaith honno yn arwydd amlwg o'r awch sydd gan bobl i ddarganfod mwy am fanylion a chymhlethdodau'r Greadigaeth. Un cylchgrawn sydd wedi cael ei osod ar binacl gan haneswyr gwyddoniaeth oherwydd ei safon uchel a'i apêl yw'r *Botanical Magazine*. Boed i lwyddiant y cylchgrawn hwn fod yn symbyliad i *Dan Haul* a'i fath.

Cystal cyfaddef ar y cychwyn fod dau reswm dros ysgrifennu'r llyth hon. Yn gyntaf, mae gan y *Botanical Magazine* gysylltiadau cryf â Chymru, ac yn ail, mae 1996 yn flwyddyn addas i astudio hanes y cylchgrawn hwn oherwydd dwy ganrif a hanner yn ôl i eleni'n union, fe anwyd William Curtis (1746-99), botanegydd cynnar o fri, cyhoeddwr a sylfaenydd y *Botanical Magazine*. Tybed beth fyddai ymateb yr hen William Curtis o weld ei gylchgrawn heddiw, bellach wedi ymddangos yn gyson ers dros ddau gant o flynyddoedd ac wedi ennill enwogrwydd rhyngwladol fel ffynhonnell gwybodaeth am blanhigion prin a chyffredin o bob rhan o'r byd? Erbyn hyn, disgrifiwyd tua 10,000 o blanhigion rhwng ei gloriau ac mae'n parhau i ymddangos o dan y teitl *Kew Magazine*.

Ar y pryd, menter uchelgeisiol iawn oedd lansio'r cylchgrawn newydd â phlatiau lliw ac nid amherthnasol fan hyn yw nodi sylwadau cyfoeswr i Curtis am 'the mad luxury carried out in England with regard to books'. Tanysgrifiadau oedd mwy neu lai unig gynhaliath y fenter gostus a chain ond da yw dweud bod y cylchrediad o fewn ychydig amser yn 3,000 o gopiau bob mis.

Pwy oedd y gŵr mentrus hwn, William Curtis? Rhamantus braidd oedd ei gefndir a'i fywyd. Alton, swydd Hampshire, oedd man ei eni a'i gartref yn ystod ei fachgendod. Aelod o deulu o Grynwyr a meddygon ydoedd a phan oedd yn 14 oed, fe'i prentisiwyd i'w daid fel meddyg neu 'apothecary-surgeon' yn y dref. Roedd yn y teulu draddodiad hir o feddygaeth ac fe gymerodd sawl cenhedlaeth o feddygon yn eu tro ddiddordeb ym myd natur, yn arbennig, fel y disgwyliid, mewn planhigion oherwydd eu defnydd meddyginiaethol. Roedd hyn at ddant y William ieuanc ac mae'n 22



Plât 1682 allan o'r *Botanical Magazine*: Cwlwm y Coed, *Convolvulus purpureus*, o waith Sydenham Edwards.

debyg i'r prentis hefyd gymryd llawer o ddiddordeb yng ngweithgareddau ostler tafarn y Crown drws nesaf i'r feddygfa. Roedd Thomas Legg yn dipyn o naturiaethwr a chanddo wybodaeth eang am flodau a phryfed yr ardal.

Os cawn droi am eiliad o fyd natur i'r byd llenyddol, diddorol yw nodi mai un o gwsmeriaid y

teulu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yr awdures ieuanc Jane Austen ac mae'n debyg i honno seilio cymeriad 'good Mr Perry' yn y nofel enwog *Emma* ar un o feddygon teulu Curtis, Alton.

Ond digwyddodd yr enwogrwydd llenyddol hwn ar ôl oes ein William Curtis ni — ei dynged ef oedd cwblhau ei

brentisiaeth yn Llundain a gwyddom iddo hefyd ddilyn ei alwedigaeth yno fel meddyg am ychydig. Ond ymhen fawr o dro botaneg enillodd y dydd. Erbyn y 1770au roedd yn gweithio fel arddangoswr yng ngerddi Cymdeithas yr Apothecariaid yn Chelsea ac yn berchen ar ardd gyhoeddus ei hun yn Lambeth a neilltuid i dyfu ac astudio